# **Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022**

**349- Beirniadaeth Rhyddiaith dan 25 oed (unrhyw ffurf)**

**Beirniad – Manon Steffan Ros**

Chwe ymgeisydd aeth ati i gystadlu eleni, ac er y byddai wedi bod yn braf gweld mwy, mae'n braf cael dweud fod y safon wedi bod yn uchel iawn. Fe gefais i bleser go iawn yn pori drwy'r gwaith.

Disgrifiad amrwd o realiti byw gydag iselder sydd yng ngwaith *Lewys*. Mae darnau disgrifiadol torcalonnus o hyfryd yma, a'r awdur yn fedrus iawn wrth ymdrin â phwnc anodd.

Mae'n amlwg fod *Blerr* gan Tara Bandito dylanwadu ar waith *Arianrhod,* sy'n dyfynu'r gân. Mae darnau disgrifiadol hyfryd, er bod lle efallai i dynnu 'nol arnyn nhw, ac i mi, mae'n teimlo fel rhan o stori fwy...

Mae gan *Siencyn* arddull naturiol, ac mae'n llwyddo i greu byd cyfan o fewn ychydig eiriau. Er fod y cymeriadau ychydig yn ystrydebol ar brydiau, mae'r darn yma'n ffilmig iawn.

Mae arddull *Grug* yn ddisgrifiadol heb fod yn llethol. Yn anffodus, mae'n newid o fod yn y trydydd person i'r person cyntaf weithiau, ond er hynny, mae'n stori drawiadol.

Os oes ffasiwn beth â'r *x factor* llenyddol, mae o i'w gael ym mhob gair o waith *Un Arall.* Dyma awdur cynnil, hyderus sy'n tynnu darllenydd i mewn i fyd y stori yn syth, ac yn gwybod yn reddfol sut mae defnyddio geiriau i greu rhythm storiol. Gwaith gwirioneddol wych.

Gwirionais yn llwyr gyda byd ffug-wyddonol *Tegwen.* Mae'r awdur yn creu byd dychrynllyd cwbl realistig oedd yn f'atgoffa o *Brave New World* gan Aldous Huxley. Yn sicr, mae 'na nofel i'w sgwennu yma- Plis plis *Tegwen*, 'sgwenna hi!

## Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2022

O drwch blewyn gwybedyn, *Un Arall* sy'n mynd â hi eleni.
Llongyfarchiadau i'r holl ymgeiswyr.

1af - Lois Wiliam
2il - Tegwen  Bruce-Deans
3ydd - Tesni Peers